# ADFYWIO BANGOR

05/2025

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU’R BARTNERIAETH

CYNGOR GWYNEDD

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU




### CYLLID LLYWODRAETH CYMRU YN SICRHAU CYTUNDEB OPSIWN AR GYFER CANOLFAN IECHYD A LLES

Sicrhawyd cyllid gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i sicrhau cytundeb opsiwn ar uned wag allweddol yng Nghanolfan Menai Bangor. Mae hyn yn gam hanfodol tuag at gyflwyno Canolfan Iechyd a Lles integredig newydd, dan arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Gwynedd. Mae'r cyfleuster arfaethedig, sydd wedi ei gynllunio i'w leoli yn yr hen uned Debenhams, yn anelu at wella mynediad at ofal iechyd ac addysg, darparu cyfleoedd hyfforddi newydd, ac annog mwy o bobl i ymweld â chanol y ddinas. Mae'r bwrdd prosiect yn dal i aros am gyllid Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF), i allu symud ymlaen i'r cam nesaf, sef yr Achos Busnes Amlinellol

### DATHLIADAU BANGOR 1500 I OLEUO’R DDINAS

Mae Bangor yn brysur yn dathlu 1500 ers i’r ddinas gael ei sefydlu, gyda rhaglen ledled y ddinas wedi’r gydlynu gan Gyngor Dinas Bangor. Mae ffocws penodol wedi ei rhoi ar wyrddio, gyda lansiad arddangosfeydd “Blodau 1500” a phrosiectau uwchraddio mannau gwyrdd gan gynnwys Gerddi’r Beibl, Gerddi Garth, Ffordd Farrar, a Ffordd Sackville. Mae prosiectau addysgol hefyd wedi’u cyflwyno mewn ysgolion lleol, gan gynnwys capsiwlau amser, prosiectau hanes lleol am Seintiau Dewi a Deiniol. Bydd cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus yn parhau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau, gorymdeithiau, dathliadau diwylliannol a gweithgareddau teuluol. Mae rhai o’r digwyddiadau hyn wedi’u cefnogi gan rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am drefniadau dathliadau 1500 ar gael ar wefan Cyngor Dinas Bangor.






### YSGOL FUSNES NEWYDD I FANGOR WEDI’I CHYHOEDDI GYDA RHODD SYLWEDDOL

Mae Prifysgol Bangor wedi derbyn grant o £10.5 miliwn gan Sefydliad Elusennol Albert Gubay i sefydlu Ysgol Fusnes newydd yn y brifysgol. Bydd y prosiect yn adnewyddu adeilad Gradd II sef safle hen ysgol Friars ac yn ychwanegu estyniad modern gydag adnoddau ynni-effeithlon. Disgwylir i’r gwaith adeiladu ddechrau yn 2026 ac i’r prosiect gael ei gwblhau erbyn 2027, gan greu amgylchedd dysgu a gwaith o safon uchel. Bydd mwy o wybodaeth am y prosiect ar gael wrth i gynlluniau barhau.

# ADFYWIO BANGOR



## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi Transforming Towns | Llywodraeth Cymru Welsh Government

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD




### PEILOT EIDDO GWAG YN TARGEDU EIDDO GWAG AR Y STRYD FAWR

Mae prosiect peilot dan arweiniad Cyngor Gwynedd wedi'i lansio'n ddiweddar, sy'n anelu at dargedu perchnogion unedau gwag ar Stryd Fawr Bangor. Mae llawer o'r adeiladau gwag mewn cyflwr gwael, ac mae'r prosiect yn ceisio ailgysylltu â landlordiaid, hyrwyddo ail-ddefnyddio, a chynnig cymorth penodol yn ôl anghenion yr eiddo. Mae'r prosiect peilot yn cynnwys tri cham: casglu data, cyswllt uniongyrchol, ac ymyriadau fesul cam. Hyd yma, mae dros 10 perchennog wedi ymateb, gyda cheisiadau amrywiol gan gynnwys cyngor cynllunio, cymorth busnes, neu arweiniad ar newid defnydd. Am fwy o wybodaeth neu unrhyw ymholiadau plîs cysylltwch a adfywio@gwynedd.llyw.cymru

### TRAWSNEWID PARC Y COLEG YN AGOS I'W GWBLHAU.

Mae'r gwaith adeiladu bellach yn parhau i drawsnewid Parc y Coleg Prifysgol Bangor i leoliad fwy hygyrch, gwyrdd a diogel, bydd yn gwella y cysylltiad rhwng y brifysgol a chanol y ddinas. Cafodd y prosiect ei oedi oherwydd sawl ffactor, gan gynnwys cynnydd mewn costau adeiladu a phresenoldeb llystyfiant Japaneaidd (knotweed). Fodd bynnag, mae'r prosiect bellach symud ymlaen yn gyflym ar ôl derbyn caniatâd cynllunio. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y parc yn cynnwys llwybr hygyrch newydd sy'n cysylltu â Pontio, mynediad mwy diogel o Ffordd Deiniol, mannau dysgu a hamdden awyr agored, a goleuadau gwell. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnig buddion amgylcheddol a chymdeithasol i'r gymuned yn ogystal ag i fyfyrwyr y brifysgol. Arianwyr y prosiect raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a gronfa Ffyniant Gyffredin y D.U. a disgwylir i'w gwblhau erbyn haf 2025.






### PROSIECT LLEIHAU TROSEDD NEWYDD WEDI EI GYFLWYNO YM MANGOR

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno'r strategaeth "Hel Dal Cryfhau" i leihau troseddau trefnedig difrifol ym Mangor. Yn dilyn peilot llwyddiannus yn y Rhyl, mae pum swyddog dros dro bellach yn gweithredu ledled y ddinas i darfu ar weithgarwch troseddol, cynnal presenoldeb cyson, ac ailadeiladu gwytnwch cymunedol gyda chymorth partneriaid lleol. Bydd canfyddiadau'r prosiect hwn yn llywio ffurfio is-grwpiau traws-sefydliadol fydd yn gyfrifol am fynd i'r afael â'r problemau penodol a nodir a'u hatal rhag digwydd yn y dyfodol.